




Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Cefndir

Gorffennaf 2019

PC 24: Astudiaeth Capasiti Manwerthu

Uned Ymchwil a Gwybodaeth Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cysylltwch gyda ni

Cynllunio Strategol a Chymunedau

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Adeilad y Llyfrgell

Stryd Mostyn

Llandudno

LL30 2RP

Ebost: cdll.idp@conwy.gov.uk

Ffôn: (01492) 575461

Cynnwys

Cynnwys	3
Adran 1: Cyflwyniad.....	4
Ffynonellau data a methodoleg	4
Adran 2: Effaith twf poblogaeth	6
Adran 3: Asesiad o'r Ardaloedd Manwerthu.....	7
Ardal fanwerthu Dwyrain Conwy	7
Ardal fanwerthu Canol Conwy	8
Ardal fanwerthu Gogledd Conwy	10
Ardal fanwerthu Gorllewin Conwy	11
Ardal fanwerthu De Conwy	13
Adran 4: Asesiad o'r Canolfannau Manwerthu	15
Dalgyrch Canolfan Llandudno	15
Dalgyrch Canolfan Bae Colwyn	16
Dalgyrch Canolfan Abergele	17
Dalgyrch Canolfan Llanrwst	18
Adran 5: Gwerthiant ar-lein	20
Adran 6: Tueddiadau twristiaeth	22
Adran 7: Gofynion arwynebedd llawr	24
Manwerthu nwyddau cyfleus	24
Manwerthu nwyddau cymhariaeth.....	28

Adran 1: Cyflwyniad

Ffynonellau data a methodoleg

Cwblhawyd y dadansoddiad yn yr adroddiad hwn gan Ymchwil Corfforaethol CBSC, gyda chymorth ymgynghorwyr Experian plc, yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan Experian plc gan ddefnyddio eu model llif archfarchnad, data Model 'Where Britain Shops', GOAD a ShopPoint. Mae gan fodelau data Experian y potensial i gynnig data manwl ar gyfer ardal ddaearyddol llawer llai na data arolwg sampl.

MOSAIC

Mosaic yw'r enw ar fodel blaenllaw dosbarthu defnyddwyr Experian ac mae'n cynnig golwg fanwl ar nodweddion a ffordd o fyw defnyddwyr y DU. Drwy gyfuniad o wybodaeth gan Experian, data gan y cyhoedd a thrydydd parti dibynadwy, mae Mosaic yn crynhoi biliynau o ddarnau o wybodaeth i ddeall nodweddion a ffordd o fyw defnyddwyr.

Nwyddau cymhariaeth a chyfleus

Bydd y dadansoddiad yn rhannu manwerthu yn ddau gategori a ddiffinnir isod:

Nwyddau cyfleus:

Bwyd a diodydd di-alcohol, tybaco, diodydd meddwol, papurau newydd a chyfnodolion a nwyddau cartref nad ydynt yn para.

Nwyddau cymhariaeth:

Dillad, esgidiau, dodrefn, dyfeisiau cartref, offer, nwyddau meddygol, gemau a theganau, llyfrau a phapur ysgrifennu, gemwaith ac eitemau personol eraill.

Model llif archfarchnad

Model data Experian, yn edrych ar y math o archfarchnad yn ôl brand a maint i benderfynu ar gryfder 'tynfa' pob archfarchnad. Mae hyn yn cyfateb â phroffil cymdeithasol-economaidd y preswylwyr (data MOSAIC) ar lefel ardal fechan (ardaloedd Allbwn Cyfrifiad) i fodel lle mae preswylwyr yn fwyaf tebygol o siopa.

Model 'Where Britain shops'

Model data Experian, yn amcangyfrif cryfder 'tynfa' pob canolfan fanwerthu yn seiliedig ar nifer, maint a chymysgedd y brandiau sydd ar gael. Mae hyn yn cyfateb â phroffil cymdeithasol-economaidd y preswylwyr (data MOSAIC) ar lefel ardal fechan (ardaloedd Allbwn Cyfrifiad) i fodel lle mae preswylwyr yn fwyaf tebygol o siopa.


Cyflenwad a galw

Bydd yr adroddiad hefyd yn rhannu'r sir yn bum parth manwerthu penodol ac yn archwilio capasiti y gwariant manwerthu (galw) yn seiliedig ar y boblogaeth breswyl a thwristiaeth ar gyfer nwyddau cymhariaeth a nwyddau cyfleus.

Bydd yr adroddiad yn archwilio cyflenwad manwerthu tair canolfan fanwerthu sy'n cael eu cydnabod gan GOAD, sef Llandudno, Bae Colwyn ac Abergele. Bydd yn nodi ac yn asesu'r ardaloedd cynradd ac eilaidd ar gyfer pob canolfan ac yn archwilio'r rhyngweithiad rhwng pob canolfan a'u prif gystadleuwyr yng Ngogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr.

Map yn dangos sut mae Sir Conwy wedi'i rhannu yn is-ardaloedd manwerthu

Dewiswyd y rhain i gyd-fynd â ffiniau daearyddol cydnabyddedig a ffiniau a ddefnyddir at ddibenion eraill yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r map isod yn dangos yr is-ardaloedd manwerthu a ffiniau'r Cyngorau Cymuned.



Adran 2: Effaith twf poblogaeth

Mae'r data newid poblogaeth yn y tabl isod yn defnyddio'r amcangyfrifon ardaloedd bach a gaiff eu llunio gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2014) fel man cychwyn, ac yna daw lefel y twf o ddata gweithgarwch adeiladu tai ymrwymedig a rhagamcanion ar lefel pob uned yng Nghyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y cynnig i ddynodi safleoedd tai fesul cam, yn ogystal â chymarebau anheddu a data poblogaeth sefydliadau o Gyfrifiad 2011; data maint aelwydydd o Gyfrifiad 2011 ac amcangyfrifon a rhagamcanion aelwydydd swyddogol Llywodraeth Cymru.

Disgwylir y bydd twf poblogaeth ym mhob un o'r ardaloedd manwerthu, gyda chynnydd sylweddol yn ardal y Dwyrain yn benodol o ganlyniad i'r datblygiadau tai a gymeradwywyd.

Newid Poblogaeth

Ardal fanwerthu	Presenno l	Tymor canol (5 mlynedd)	Tymor hir (10 mlynedd)	% Newid (10 mlynedd)
Canol Conwy	32,600	34,000	34,600	6.3%
Dwyrain Conwy	22,200	23,100	24,200	9.1%
Gogledd Conwy	20,000	20,000	20,300	1.2%
De Conwy	13,000	13,000	13,500	4.0%
Gorllewin Conwy	28,400	29,000	29,400	3.7%
Cyfanswm	116,200	119,100	122,000	5.1%

Mae effaith y newid poblogaeth ar y galw am nwyddau cymhariaeth a chyfleus i'w gweld yn y tablau canlynol. Gallai'r galw am nwyddau cyfleus yng Nghonwy gynyddu hyd at £12.6 Miliwn y flwyddyn a gallai'r galw am nwyddau cymhariaeth gynyddu hyd at bron i £18.3 Miliwn.

Galw am nwyddau Cymhariaeth (£M)

Ardal fanwerthu	Presennol	Tymor canol (5 mlynedd)	Tymor hir (10 mlynedd)	% Newid (10 mlynedd)
Canol Conwy	97.5	101.6	102.5	5.1%
Dwyrain Conwy	62.2	65.3	68.8	10.7%
Gogledd Conwy	58.1	57.9	59.1	1.7%
De Conwy	44.6	44.5	45.8	2.6%
Gorllewin Conwy	81.6	84.4	86.1	5.6%
Cyfanswm	344.0	353.7	362.3	5.3%

Galw am nwyddau Cyfleus (£M)

Ardal fanwerthu	Presennol	Tymor canol (5 mlynedd)	Tymor hir (10 mlynedd)	% Newid (10 mlynedd)
Canol Conwy	66.1	69.0	69.8	5.5%
Dwyrain Conwy	44.7	46.8	49.2	10.0%
Gogledd Conwy	39.7	39.6	40.2	1.3%
De Conwy	31.1	31.0	32.0	3.0%
Gorllewin Conwy	55.3	57.3	58.4	5.5%
Cyfanswm	236.9	243.6	249.5	5.3%

Adran 3: Asesiad o'r Ardaloedd Manwerthu

Ardal fanwerthu Dwyrain Conwy

Mae ardal fanwerthu Dwyrain Conwy yn cynnwys cymunedau Abergele, Bae Cinnel, Tywyn, Pensarn (Abergele), Llanfair TH, Llanefydd a Llansannan. Mae 10,600 annedd yn yr ardal ac amcangyfrifir bod cyfanswm y boblogaeth yn 22,250. Disgwylir bydd maint y boblogaeth yn codi i 24,200 dros y 10 mlynedd nesaf, sef cynnydd o 9.1%.

Mae strwythur oedran yr ardal hon fel a ganlyn. Mae strwythur poblogaeth ardal fanwerthu'r Dwyrain yn hŷn na gweddill Conwy ac mae cyfran uchel o aelwydydd yn bensiynwyr.

Strwythur oedran (Swyddfa Ystadegau Gwladol 2016)

	0-15 oed	16-29 oed	30-44 oed	45-64 oed	65+ oed
Dwyrain	15.5%	12.9%	13.8%	28.0%	29.8%
Conwy	16.2%	14.0%	14.8%	28.1%	27.0%
Cymru	18.0%	18.2%	18.0%	26.3%	19.5%

Map yn dangos ardal fanwerthu Dwyrain Conwy a'r prif archfarchnadoedd



Amcangyfrifir bod galw manwerthu ardal fanwerthu'r Dwyrain yn £44.8 Miliwn ar gyfer nwyddau cyfleus a £62.2 Miliwn ar gyfer nwyddau cymhariaeth. Gwasanaethir trefi arfordirol Abergele, Tywyn a Bae Cinnel gan archfarchnadoedd yn Abergele, Bae Cinnel, Bae Colwyn a'r Rhyl. Mae'r A55 hefyd yn golygu bod siopau yng Nghyffordd Llandudno a Llandudno yn hygyrch iawn. Mae ardal fanwerthu Dwyrain Conwy yn cynnwys nifer o bentrefi gwledig llai fel Llanfair Talhaearn a Llansannan. Mae'n bosibl cyrraedd yr arfordir yn weddol hwylus ar hyd ffordd yr A455, ond bydd y rhan helaeth o'r ardal wledig hon yn cael ei gwasanaethu gan siopau yn Ninbych.

Yn seiliedig ar fodel Experian, mae'r galw hwn yn cael ei ateb gan y lleoliadau canlynol:

Tabl yn dangos lle mae'r galw am nwyddau cyfleus ar gyfer ardal fanwerthu'r Dwyrain yn cael ei ateb

Ardal	Gwariant ar nwyddau Cyfleus (£M)	%
Y Rhyl	10.4	23.2%
Abergele	9.8	21.9%
Bae Cinmel	9.4	20.8%
Bae Colwyn	3.1	7.0%
Prestatyn	2.9	6.5%
Llandudno	2.2	5.0%
Rhuddlan (Aldi)	1.9	4.3%
Dinbych	1.7	3.7%
Sir y Fflint	1.4	3.2%
Eraill	2.0	4.5%
Cyfanswm	44.8	100.0%

Tabl yn dangos lle mae'r galw am nwyddau cymhariaeth ar gyfer ardal fanwerthu'r Dwyrain yn cael ei ateb

Ardal	Gwariant ar nwyddau Cymhariaeth (£M)	%
Y Rhyl	28.7	46.1%
Bae Colwyn	9.6	15.4%
Llandudno	9.7	15.6%
Caer	4.6	7.4%
Bangor	2.3	3.7%
Abergele	1.2	1.9%
Prestatyn	1.1	1.8%
Dinbych	0.6	1.0%
Sir y Fflint	2.5	4.0%
Lerpwl	0.8	1.3%
Eraill	1.1	1.8%
Cyfanswm	62.2	100.0%

Ardal fanwerthu Canol Conwy


Mae ardal fanwerthu Canol Conwy yn cynnwys cymunedau Bae Colwyn, Llandrillo-yn-Rhos, Mochdre, Betws yn Rhos, Llysfaen a Llanddulas. Mae 16,100 annedd yn yr ardal ac amcangyfrifir bod cyfanswm y boblogaeth yn 32,850. Disgwylir bydd maint y boblogaeth yn codi i 34,600 dros y 10 mlynedd nesaf, sef cynnydd o 6.3%.

Mae strwythur oedran yr ardal hon fel a ganlyn. Mae strwythur oedran ardal fanwerthu Canol Conwy ychydig yn iau na gweddill Conwy ac mae yma gyfran ychydig yn uwch o eiddo ar rent ac ardaloedd o amddifadedd uwch.

Strwythur oedran (Swyddfa Ystadegau Gwladol 2016)

	0-15 oed	16-29 oed	30-44 oed	45-64 oed	65+ oed
Canol	17.8%	14.2%	15.2%	27.1%	25.7%
Conwy	16.2%	14.0%	14.8%	28.1%	27.0%
Cymru	18.0%	18.2%	18.0%	26.3%	19.5%

Map yn dangos ardal fanwerthu Canol Conwy a'r prif archfarchnadoedd



Amcangyfrifir bod y galw manwerthu yn ardal fanwerthu Canol Conwy yn £66.1 Miliwn ar gyfer nwyddau cyfleus a £97.3 Miliwn ar gyfer nwyddau cymhariaeth. Gwasanaethir yr ardal gan Morrison's, Lidl ac Aldi ym Mae Colwyn / Hen Golwyn, ynghyd ag Iceland a siopau defnydd cymysg fel Home Bargains. Mae'r ffyrdd yn cynnig cysylltiadau da i siopau yn Llandudno a Chyffordd Llandudno, ac mae dwyrain yr ardal fanwerthu hon hefyd yn hygyrch i Abergele, Bae Cinmel a'r Rhyl.

Yn seiliedig ar fodel Experian, mae'r galw hwn yn cael ei ateb gan y lleoliadau canlynol:

Tabl yn dangos lle mae'r galw am nwyddau cyfleus ar gyfer ardal fanwerthu Canol Conwy yn cael ei ateb

Ardal	Gwariant ar nwyddau Cyfleus (£M)	%
Bae Colwyn	23.8	36.0%
Llandudno	15.6	23.6%
Cyffordd Llandudno	8.3	12.6%
Abergele	5.6	8.5%
Bae Cinmel	4.5	6.8%
Rhyl	4.2	6.4%
Prestatyn	1.7	2.6%
Eraill	2.4	3.6%
Cyfanswm	66.1	100.0%

Tabl yn dangos lle mae'r galw am nwyddau cymhariaeth ar gyfer ardal fanwerthu Canol Conwy yn cael ei ateb

Ardal	Gwariant ar nwyddau Cymhariaeth (£M)	%
Bae Colwyn	35.6	36.6%
Llandudno	39.4	40.5%
Y Rhyl	9.4	9.7%
Bangor	5.1	5.2%
Caer	2.6	2.7%
Sir y Fflint	0.8	0.8%
Lerpwl	0.3	0.3%
Eraill	4.1	4.2%
Cyfanswm	97.3	100.0%

Ardal fanwerthu Gogledd Conwy

Mae ardal fanwerthu'r Gogledd yn cynnwys cymunedau Llandudno a Bae Penrhyn. Mae 10,640 annedd yn yr ardal ac amcangyfrifir bod cyfanswm y boblogaeth yn 20,000. Disgwylir i faint y boblogaeth godi i 20,300 dros y 10 mlynedd nesaf, sef cynnydd o 1.2% yn unig.

Mae strwythur oedran yr ardal hon fel a ganlyn. Mae strwythur oedran ardal fanwerthu'r Gogledd yn hŷn na gweddill Conwy ac mae cyfran uwch o bensiynwyr yn byw ar eu pen eu hunain yno (19%). Hefyd mae yno gyfran uwch o eiddo ar rent, sef 35% o'i gymharu â 30% ar draws gweddill y sir.

Strwythur oedran (Swyddfa Ystadegau Gwladol 2016)

	0-15 oed	16-29 oed	30-44 oed	45-64 oed	65+ oed
Gogledd	14.8%	14.6%	14.6%	27.3%	28.7%
Conwy	16.2%	14.0%	14.8%	28.1%	27.0%
Cymru	18.0%	18.2%	18.0%	26.3%	19.5%

Map yn dangos ardal fanwerthu Gogledd Conwy a'r prif archfarchnadoedd



Amcangyfrifir bod y galw manwerthu ar gyfer ardal fanwerthu'r Gogledd yn £39.7 Miliwn ar gyfer nwyddau cyfleus a £58.1 Miliwn ar gyfer nwyddau cymhariaeth. Gwasanaethir yr ardal yn dda gan siopau lleol ac mae amrywiaeth dda o ddewisiadau ar gyfer cwsmeriaid yn Llandudno, Cyffordd Llandudno a Bae Colwyn.

Yn seiliedig ar fodel Experian, mae'r galw hwn yn cael ei ateb gan y lleoliadau canlynol:

Tabl yn dangos lle mae'r galw am nwyddau cyfleus yn ardal fanwerthu'r Gogledd yn cael ei ateb

Ardal	Gwariant ar nwyddau Cyfleus (£M)	%
Llandudno	28.5	71.8%
Cyffordd Llandudno	4.5	11.3%
Bae Colwyn	3.9	9.8%
Eraill	2.8	7.1%
Cyfanswm	39.7	100.0%

Tabl yn dangos lle mae'r galw am nwyddau cymhariaeth ar gyfer ardal fanwerthu'r Gogledd yn cael ei ateb

Ardal	Gwariant ar nwyddau Cymhariaeth (£M)	%
Llandudno	49.6	85.4%
Bae Colwyn	5.0	8.6%
Bangor	1.8	3.1%
Y Rhyl	0.9	1.5%
Caer	0.2	0.3%
Eraill	0.6	1.0%
Cyfanswm	58.1	100.0%

Ardal fanwerthu Gorllewin Conwy

Mae ardal fanwerthu'r Gorllewin yn cynnwys cymunedau Conwy, Glan Conwy, Cyffordd Llandudno, Dwgyfylchi, Penmaenmawr a Llanfairfechan. Mae 13,420 annedd yn yr ardal ac amcangyfrifir bod cyfanswm y boblogaeth yn 28,400. Disgwylir bydd maint y boblogaeth yn codi i 29,400 dros y 10 mlynedd nesaf, sef cynnydd o 3.7%.

Mae strwythur oedran yr ardal hon fel a ganlyn. Mae strwythur poblogaeth y Gorllewin yn debyg i weddill Conwy ond mae lefelau perchen-ddeiliadaeth yn uwch.

Strwythur oedran (Swyddfa Ystadegau Gwladol 2016)

	0-15 oed	16-29 oed	30-44 oed	45-64 oed	65+ oed
Gorllewin	16.0%	14.4%	15.3%	28.7%	25.6%
Conwy	16.2%	14.0%	14.8%	28.1%	27.0%
Cymru	18.0%	18.2%	18.0%	26.3%	19.5%

Amcangyfrifir bod y galw manwerthu ar gyfer ardal fanwerthu'r Gorllewin yn £55.3 Miliwn ar gyfer nwyddau Cyfleus a £81.6 Miliwn ar gyfer nwyddau cymhariaeth. Gwasanaethir ardal ddwyreiniol yr ardal fanwerthu hon yn dda gan siopau yng Nghyffordd Llandudno, Llandudno a Bae Colwyn, a gwasanaethir y galw yn y gorllewin (Llanfairfechan yn benodol) gan siopau ym Mangor hefyd.

Map yn dangos ardal fanwerthu'r Gorllewin a'r prif archfarchnadoedd



Yn seiliedig ar fodel Experian, mae'r galw hwn yn cael ei ateb gan y lleoliadau canlynol:

Tabl yn dangos lle mae'r galw am nwyddau cyfleus ar gyfer ardal fanwerthu'r Gorllewin yn cael ei ateb

Ardal	Gwariant ar nwyddau Cyfleus (£M)	%
Llandudno	21.3	38.5%
Cyffordd Llandudno	13.2	23.9%
Gwynedd	7.9	14.3%
Bae Colwyn	6.8	12.3%
Bae Cinmel	1.4	2.5%
Abergele	1.2	2.2%
Conwy	0.8	1.4%
Llanfairfechan	0.6	1.1%
Penmaenmawr	0.4	0.7%
Eraill	1.7	3.1%
Cyfanswm	55.3	100.0%

Tabl yn dangos lle mae'r galw am nwyddau cymhariaeth ar gyfer ardal fanwerthu'r Gorllewin yn cael ei ateb

Ardal	Gwariant ar nwyddau Cymhariaeth (£M)	%
Llandudno	49.0	60.0%
Bae Colwyn	12.2	15.0%
Gwynedd	16.5	20.2%
Y Rhyl	2.3	2.8%
Caer	0.6	0.7%
Eraill	1.0	1.2%
Cyfanswm	81.6	100.0%

Ardal fanwerthu De Conwy

Mae ardal fanwerthu'r De yn ymestyn dros ardal ddaearyddol eang sy'n cynnwys nifer fawr o gymunedau bach ac un dref fawr, sef Llanrwst. Mae cyfran helaeth o'r ardal fanwerthu hon hefyd o fewn ffiniau Parc Cenedlaethol Eryri. Mae 6,140 annedd yn yr ardal ac amcangyfrifir bod cyfanswm y boblogaeth yn 13,000. Disgwylir i faint y boblogaeth godi i 13,500 dros y 10 mlynedd nesaf, sef cynnydd o 4%.

Mae strwythur oedran yr ardal fel a ganlyn. Mae strwythur poblogaeth ardal fanwerthu'r De yn wahanol i weddill Conwy ac mae yno gyfran uwch o bobl rhwng 45 a 64 oed, ond llai o bobl dros 65 oed a llai o dan 16 oed. Mae diweithdra yn isel ac mae'r nifer sy'n hawlio budd-daliadau hefyd yn isel.

Strwythur oedran (Swyddfa Ystadegau Gwladol 2016)

	0-15 oed	16-29 oed	30-44 oed	45-64 oed	65+ oed
De	15.7%	13.9%	14.5%	30.4%	25.5%
Conwy	16.2%	14.0%	14.8%	28.1%	27.0%
Cymru	18.0%	18.2%	18.0%	26.3%	19.5%

Map yn dangos ardal fanwerthu'r De a'r prif archfarchnadoedd



Amcangyfrifir bod y galw manwerthu yn ardal fanwerthu'r De yn £31.0 Miliwn ar gyfer nwyddau cyfleus a £43.9 Miliwn ar gyfer nwyddau cymhariaeth. Mae'r ardal ddaearyddol fawr hon yn denau ei phoblogaeth gyda phentrefi bach a wasanaethir gan siopau llai fel Co-op, Spar neu Londis. Gall rhai rhannu o ardal fanwerthu'r De gael mynediad hwylus i siopau'r arfordir ar hyd ffordd yr A5 ac fe'u gwasanaethir gan siopau yng Nghyffordd Llandudno, Llandudno a Bae Colwyn i raddau llai.

Mae'n haws i'r rheini sy'n byw yng ngorllewin yr ardal hon gyrraedd Bangor a gall rhai yn y dwyrain a'r de deithio i Ddinbych ac o bosibl i Ruthun.

Yn seiliedig ar fodel Experian, mae'r galw hwn yn cael ei ateb gan y lleoliadau canlynol:

Tabl yn dangos lle mae'r galw am nwyddau cyfleus ar gyfer ardal fanwerthu'r De yn cael ei ateb

Ardal	Gwariant ar nwyddau Cyfleus (£M)	%
Llandudno	6.8	21.9%
Llanrwst	6.2	20.0%
Cyffordd Llandudno	3.0	9.7%
Gwynedd	2.8	9.0%
Bae Colwyn	2.6	8.4%
Betws y Coed	2.4	7.7%
Dinbych	1.1	3.5%
Y Rhyl	1.1	3.5%
Abergele	1.1	3.5%
Bae Cinmel	1.1	3.5%
Corwen	0.6	1.9%
Rhuthun	0.5	1.6%
Eraill	1.7	5.5%
Cyfanswm	31.0	100.0%

Tabl yn dangos lle mae'r galw am nwyddau cymhariaeth ar gyfer ardal fanwerthu'r De yn cael ei ateb

Ardal	Gwariant ar nwyddau Cymhariaeth (£M)	%
Llandudno	18.7	42.6%
Gwynedd	10.2	23.2%
Bae Colwyn	6.7	15.3%
Y Rhyl	2.7	6.2%
Caer	2.0	4.6%
Wrecsam	1.1	2.5%
Sir y Fflint	0.6	1.4%
Dinbych	0.5	1.1%
Eraill	1.4	3.2%
Cyfanswm	43.9	100.0%

Adran 4: Asesiad o'r Canolfannau Manwerthu

Mae'r adran hon yn seiliedig ar ddalgylchoedd y canolfannau manwerthu, nid yr ardaloedd manwerthu a ddefnyddiwyd yn yr adrannau blaenorol. Mae dalgylchoedd manwerthu yn croesi ffiniau gweinyddol ac yn dibynnu ar amseroedd gyrru a chryfder y canolfannau cystadleuol gerllaw.


- Daw 50% o'r fasnach o'r dalgylch Cynradd
- Daw 75% o'r fasnach o'r dalgylch Eilaidd (mae hyn yn cynnwys 50% o'r dalgylch Cynradd a 25% ychwanegol)
- Daw 90% o'r fasnach o'r dalgylch Trydyddol (mae hyn yn cynnwys y dalgylchoedd Cynradd ac Eilaidd a 15% ychwanegol).

Nid yw hyn yn ystyried twristiaeth na masnach yn seiliedig ar y gweithle.

Dalgylch Canol Llandudno

Mae Llandudno (gan gynnwys Parc Llandudno a Mostyn Champneys) yn cynnwys 255 o unedau manwerthu gydag 870,000 troedfedd sgwâr o arwynebedd llawr. Amcangyfrifir bod y boblogaeth wedi'i phwysoli ychydig dros 65,000 o bobl. Dyma nifer y bobl sy'n byw yn y dalgylch sy'n gwneud rhywfaint o'u siopau yn Llandudno.

Map yn dangos Dalgylch manwerthu Llandudno



Tabl yn dangos data am Ddalgyfchoedd Llandudno


Dalgylch	Poblogaeth bresennol	Poblogaeth 10 mlynedd	Galw am nwyddau Cymhariaeth (£M)	Galw am nwyddau Cymhariaeth wedi'i bwysoli (£M)	%
Cynradd	43,300	44,400	125.2	93.3	74.5%
Eilaidd	36,800	38,100	112.6	49.7	44.1%
Trydyddol	71,300	79,800	202.7	28.9	14.2%
Cyfanswm	151,400	162,300	440.5	171.9	39.0%

Mae'r galw am nwyddau cymhariaeth yn nalgylch Cynradd ac Eilaidd Llandudno ychydig o dan £240 Miliwn. O ystyried cynnig presennol y dref, gallai Llandudno fod yn denu tua £140 Miliwn o'r galw hwn neu 60.1%. Felly, mae potensial mawr iawn o hyd i ehangu'r cynnig yn Llandudno er mwyn cynyddu'r ganran hon. Nid oes disgwyl i boblogaeth y dalgylch Cynradd newid llawer dros y 10 mlynedd nesaf, fodd bynnag mae disgwyl newid sylweddol yn y dalgylchoedd Eilaidd a Thrydyddol a allai weld 11,000 o breswylwyr ychwanegol yn byw yn y dalgylch.

Dalgylch Canolfan Bae Colwyn

Mae Bae Colwyn yn cynnwys 160 o unedau manwerthu gyda 322,000 troedfedd sgwâr o arwynebedd llawr. Amcangyfrifir bod y boblogaeth wedi'i phwysoli ychydig o dan 30,000 o bobl. Dyma nifer y bobl yn y dalgylch sy'n gwneud rhywfaint o'u siopau ym Mae Colwyn.

Map yn dangos dalgyrch manwerthu Bae Colwyn



Tabl yn dangos data am Ddalgylchoedd Bae Colwyn


Dalgylch	Poblogaeth bresennol	Poblogaeth 10 mlynedd	Galw am nwyddau Cymhariaeth (£M)	Galw am nwyddau Cymhariaeth wedi'i Bwysoli (£M)	%
Cynradd	41,200	44,100	124.3	40.4	32.5%
Eilaidd	46,500	53,600	136.8	21.6	15.8%
Trydyddol	77,100	79,800	222.1	12.2	5.5%
Cyfanswm	164,700	177,500	483.3	74.2	15.4%

Mae'r galw am nwyddau cymhariaeth yn nalgylchoedd Cynradd ac Eilaidd Bae Colwyn ychydig dros £260 Miliwn. O ystyried cynnig presennol y dref, gallai Bae Colwyn fod yn denu tua £60 Miliwn o'r galw hwn neu 24%. Felly, mae potensial mawr iawn i ehangu'r cynnig ym Mae Colwyn i gynyddu'r ganran hon. Disgwylir i boblogaeth y dalgylchoedd Cynradd ac Eilaidd godi dros y 10 mlynedd nesaf, sef cynnydd o tua 10,000 o breswylwyr.

Dalgylch Canolfan Abergele

Canolfan fach yw Abergele, yn cynnwys 55 o unedau manwerthu gydag 122,000 troedfedd sgwâr o arwynebedd llawr. Amcangyfrifir bod y boblogaeth wedi'i phwysoli tua 850 o bobl. Dyma nifer y bobl yn y dalgylch sy'n gwneud rhywfaint o'u siopa yn Abergele.

Map yn dangos dalgyllh manwerthu Abergele



Tabl yn dangos data am Ddalgylchoedd Abergele


Dalgylch	Poblogaeth bresennol	Poblogaeth 10 mlynedd	Galw am nwyddau Cymhariaeth (£M)	Galw am nwyddau Cymhariaeth wedi'i Bwysoli (£M)	%
Cynradd	20,700	27,200	60.7	1.3	2.1%
Eilaidd	30,000	32,400	89.3	0.6	0.7%
Trydyddol	29,800	31,400	86.6	0.4	0.4%
Cyfanswm	80,600	91,000	236.7	2.3	1.0%

Y galw am nwyddau cymhariaeth yn nalgylchoedd Cynradd ac Eilaidd Abergele yw tua £150 Miliwn. O ystyried natur gyfyngedig cynnig y dref, bydd Abergele yn denu £2 Miliwn yn unig o'r galw hwn, neu 1.3%.

Dalgylch Canolfan Llanrwst

Mae Llanrwst yn cynnwys 97 o unedau manwerthu, ond nid yw'n rhan o gronfa ddata GOAD Experian, felly nid yw'n bosibl amcangyfrif cyfran y bobl sy'n byw yn lleol ac sy'n siopa yn y ganolfan. Amcangyfrifwyd y dalgylch isod ar sail y dalgylch ar gyfer siopau nwyddau cyfleus Llanrwst.

Map yn dangos dalgylch manwerthu Llanrwst



Tabl yn dangos data am Ddalgylchoedd Llanrwst

Dalgylch	Poblogaeth bresennol	Poblogaeth 10 mlynedd	Galw am nwyddau Cymhariaeth (£M)	Galw am nwyddau Cymhariaeth wedi'i Bwysoli (£M)	%
Cynradd	1,800	2,000	4.3	-	-
Eilaidd	2,300	2,600	7.0	-	-
Trydyddol	3,400	3,400	12.8	-	-
Cyfanswm	7,500	8,000	24.1	-	-

Y galw am nwyddau cymhariaeth yn dalgylchoedd Cynradd ac Eilaidd Llanrwst yw tua £11 Miliwn. Nid yw Llanrwst yn rhan o gronfa ddata GOAD Experian, felly nid oes amcangyfrif ar gael o'r gyfran o'r arian hwn sy'n cael ei wario yn lleol yn Llanrwst. O ystyried cynnig cyfyngedig iawn y dref, mae'n debygol o fod yn swm bychan iawn.

Adran 5: Gwerthiant Ar-lein

Mae llawer o siopau'r stryd fawr yn wynebu trafferthion ac mae enwau adnabyddus fel Debenhams, Marks & Spencer, Tesco, Sainsbury's, Asda, Morrisons, B&Q, New Look, Mothercare a Toys 'R' Us wedi cyhoeddi eu bod yn un ai yn cau siopau neu am ddiswyddo staff. Yn ogystal â'r ffaith bod llai o bobl yn mynd i'r siopau, mae manwerthwyr wedi cael eu taro gan gostau cynyddol yn sgil codiadau cyflog, chwyddiant a chynnydd mewn ardrethi. Mae gwariant defnyddwyr yn cynnig her arall gan nad yw codiadau cyflog yn cadw i fyny â chwyddiant, gan olygu bod gan bobl lai o arian i wario. Mae'r canghennau traddodiadol yn dal i gael eu herio gan dwf y manwerthwyr rhatach fel Aldi, Lidl a B&M Bargains, yn ogystal â chystadleuaeth gan fanwerthwyr ar-lein fel Amazon. Er enghraifft, mae Primark wedi gweld ei gyfran o'r farchnad yn cynyddu ac mae'n buddsoddi mewn mwy o safleoedd manwerthu; hefyd mae Lidl wedi disodli Waitrose fel 7^{fed} manwerthwr mwyaf y DU a chwmni Aldi wedi disodli'r Co-Op yn y 5^{ed} safle.

Siart yn dangos gwerthiant manwerthu ar-lein fel cyfran o gyfanswm y gwerthiant manwerthu
(Swyddfa Ystadegau Gwladol, Bwletin gwerthiant manwerthu, Chwefror 2018)



Mae'r sector manwerthu ar-lein wedi tyfu'n gyson am dros 10 mlynedd bellach ac erbyn hyn mae'n cyfrif am 17% o gyfanswm gwerthiant manwerthu ym Mhrydain (2017), gan gyrraedd uchafbwynt o bron i 20% cyn y Nadolig. Er bod y twf mewn gwerthiant ar-lein wedi arafu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae rhai siopau manwerthu, siopau dillad yn benodol, wedi dirywio ac mae arbenigwyr yn cydnabod bod twf mewn gwerthiant ar-lein ar draul siopau manwerthu. Bydd y duedd hon mewn manwerthu ar-lein yn cyrraedd penllanw yn y pen draw, ond mae cryn drafod ynghylch beth fydd y penllanw terfynol hwnnw.

Tabl yn dangos gwerthiant ar-lein fel cyfran o fanwerthu fesul categori eang
(Swyddfa Ystadegau Gwladol, Bwletin gwerthiant manwerthu, Chwefror 2018)

Categori	Gwerthiant ar-lein fel cyfran o fanwerthu
Pob math o fanwerthu	17.2
Pob math o fwyd	5.5
Pob eitem heb gynnwys bwyd	13.1
Siopau adrannol	16.1
Tecstilau, dillad ac esgidiau	15.9
Nwyddau cartref	12.1
Eraill	9.3

Er eu bod wedi dirywio yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae siopau ar y stryd yn dal i chwarae rhan bwysig yn y sector manwerthu, gan gyfrif am 83% o'r gwerthiant. Mae siopau yn darparu rhai o'r gwasanaethau nad ydynt ar gael ar-lein fel cyngor arbenigol a'r gallu i edrych ar y dillad yn iawn a'u gwisgo. Maent hefyd yn darparu rôl ategol i'r farchnad ar-lein fel 'clicio a chasglu' sy'n gyfleus i'r defnyddiwr a'r manwerthwr. Mae llawer o siopau yn gwerthu ar-lein ac yn cael eu nwyddau o'r siopau arferol, yn hytrach na warws, gan olygu gall twf ar-lein gael effaith gadarnhaol ar siopau'r stryd yn hytrach nag effaith negyddol. Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Rhagfyr 2017, siopau sydd â phresenoldeb ar y stryd sy'n cyfrannu fwyaf at dwf cyffredinol gwerthiant ar-lein.

Mae Experian yn awgrymu bydd y canrannau ar-lein yn parhau i gynyddu, ond bydd y twf yn arafach nag yn ystod y blynyddoedd blaenorol. At ddibenion yr adroddiad hwn diwygiwyd gwariant manwerthu'r dyfodol fel a ganlyn:

- **Manwerthu nwyddau cyfleus + 10 mlynedd = gostyngiad o 1.6% oherwydd gwerthiant ar-lein**
- **Manwerthu nwyddau cymhariaeth + 10 mlynedd = gostyngiad o 2.9% oherwydd gwerthiant ar-lein**

Adran 6: Tueddiadau ym maes twristiaeth

Mae twristiaeth yn chwarae rhan bwysig yn economi Conwy ac mae gwariant ymwelwyr yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r sector manwerthu. Mae'r tablau yn yr adran hon yn cyfuno'r data a gynhyrchwyd gan STEAM ar lefel sirol, ac mae'n defnyddio cronfeydd data llety twristiaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Croeso Cymru i ddynodi gwariant y sir i ardaloedd daearyddol llai.

Amcangyfrifir mai cyfanswm effaith economaidd twristiaeth ar y sir yw £838.8 Miliwn; mae £43.9 Miliwn yn wariant ar nwyddau cymhariaeth a £41.9 Miliwn yn wariant ar nwyddau cyfleus. Mae'r gwariant ar nwyddau cymhariaeth yn llawer is nag Astudiaeth Capasiti Manwerthu 2012 ar ôl i ymchwil newydd ddangos bod 'ymwelwyr dydd' yn gwario llawer llai.

Cyfanswm yr Effaith Economaidd (£M)	Gwariant ar nwyddau Cymhariaeth (£M)	Gwariant ar nwyddau Cyfleus (£M)
838.8	60.3	44.4

At ddiben y dadansoddiad hwn, dosbarthwyd ymwelwyr i ddau gategori syml: ymwelwyr sy'n aros dros nos ac ymwelwyr dydd. Mae llawer mwy o 'ymwelwyr dydd' ac maent wedi'u canolbwyntio'n bennaf ar ardal Llandudno a Chonwy. Er bod y gwariant fesul ymwelydd yn isel, mae'r nifer mawr o ymwelwyr yn gyffredinol yn golygu bod cyfanswm y gwariant yn sylweddol.

Tabl yn dangos nifer a math o ymwelwyr i Sir Conwy

(STEAM 2016)

Pob ymwelydd (Miliwn)	Ymwelwyr sy'n Aros (Miliwn)	Ymwelwyr Dydd (Miliwn)
9.35	2.60	6.75

Tabl yn dangos y galw am nwyddau Cymhariaeth a nwyddau Cyfleus gan 'Ymwelwyr Dydd'

Canolfan fanwerthu	Nwyddau Cymhariaeth (£M)	Nwyddau Cyfleus (£M)
Conwy	2.0	0.3
Llandudno	10.9	1.7
Bae Colwyn	3.3	0.5
Abergele	0.2	0.03
Cyfanswm	16.4	2.5


Er bod nifer yr 'ymwelwyr sy'n aros' yn llawer llai, mae potensial eu cyfraniad i'r sector manwerthu yn fwy. Mae potensial uchel y gwariant ar nwyddau cyfleus yn gysylltiedig â'r nifer mawr o lety heb wasanaeth sydd ar gael yn y sir.

Tabl yn dangos y galw am nwyddau Cymhariaeth a nwyddau Cyfleus gan 'Ymwelwyr sy'n Aros'

Ardal fanwerthu	Nwyddau Cymhariaeth (£M)	Nwyddau Cyfleus (£M)
Canol Conwy	3.2	4.1
Dwyrain Conwy	8.0	23.5
Gogledd Conwy	19.9	2.0
De Conwy	7.1	4.6
Gorllewin Conwy	5.6	7.7
Cyfanswm	43.9	41.9

Dros amser, mae cynnydd wedi bod yn y ddau fath o ymwelydd yng Nghonwy. Mae'r siart isod yn dangos cynnydd o 25% yn nifer y twristiaid a ddaeth i'r sir rhwng 2005 ac 2016. Gan edrych i'r dyfodol, mae'n anodd rhagweld a fydd y duedd hon yn parhau oherwydd natur gyfnewidiol y sector sy'n cael ei ddylanwadu'n helaeth gan ffactorau allanol fel y tywydd a chyfraddau cyfnewid rhyngwladol. Mae'n aneglur hefyd faint o gapasiti sydd gan y sector ar gyfer cynnal twf parhaus (h.y. a yw'r llety, cyfleusterau ac amwynderau yn gallu parhau i gynnal y lefel twf hwn?).

Siart yn dangos y newid yn nifer yr 'ymwelwyr dydd' ac 'ymwelwyr sy'n aros': 2005-2016
(STEAM 2016)



O ystyried yr ansicrwydd a natur gyfnewidiol y sector twristiaeth, mae'r galw manwerthu gan dwristiaeth wedi bod yn gyson wrth edrych 10 mlynedd i'r dyfodol.

Adran 7: Gofynion o ran arwynebedd llawr

Manwerthu nwyddau cyfleus

Mae'r tabl canlynol yn rhoi amcangyfrif o'r gwariant ar nwyddau cyfleus yn y prif archfarchnadoedd yn Sir Conwy. Mae'r gwariant yn ystyried y preswylwyr, y rhai sy'n gweithio yn yr ardal a thwristiaeth. Daw'r wybodaeth am faint y siopau o gronfa ddata GOAD Experian ac fe'i defnyddiwyd i roi amcangyfrif bras o'r lefel fasnach i bob troedfedd sgwâr.

Awgryma'r data fod nifer o'r siopau presennol yn gwneud yn dda ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Asda, Llandudno
- Asda, Bae Cinmel
- Tesco, Cyffordd Llandudno
- Tesco, Abergele
- Lidl, Bae Colwyn
- Morrison's, Bae Colwyn
- Co-op, Llanrwst

Tabl yn amcangyfrif y gwariant blyneddol ar nwyddau cyfleus yn y prif archfarchnadoedd

Siop	Maint y siop (Tr. Sgwâr)	Gwariant preswylwyr (£M)	Gwariant gweithle (£M)	Gwariant twristiaeth (£M)	Cyfanswm y gwariant (£M)	Masnach yn ôl troedfedd sgwâr* (£)
Asda, LLANDUDNO	81,190	60.5	1.8	1.3	63.54	£980
Asda, BAE CINMEL	57,740	34.9	1.4	10.2	46.47	£1,000
Tesco, CYFFORDD LI'DUDNO	34,900	23.8	0.5	0.2	24.48	£880
Tesco, ABERGELE	37,800	22.4	1.4	0.8	24.56	£810
Morrison's, BAE COLWYN	22,500	14.0	1.2	0.0	15.23	£850
Lidl, BAE COLWYN	12,107	8.5	0.6	0.0	9.12	£940
Aldi, HEN GOLWYN	11,696	6.9	0.7	0.0	7.62	£810
Aldi, LLANDUDNO	13,000	6.8	0.4	0.1	7.23	£700
Iceland, BAE COLWYN	10,300	6.1	0.4	0.0	6.52	£790
Iceland, LLANDUDNO	10,300	5.3	0.4	0.1	5.79	£700
Co-op, LLANRWST	10,169	6.2	0.6	0.1	6.85	£840
M&S, LLANDUDNO	38,165	4.2	0.7	0.3	5.18	£170
Asda, CYFFORDD LI'DUDNO	9,800	4.2	0.2	0.0	4.38	£560
Iceland, CYFFORDD LI'DUDNO	7,400	3.1	0.2	0.0	3.34	£560
Co-op, BAE PENRHYN	4,096	1.5	0.4	0.2	2.02	£620
Sainsbury's, LLANDUDNO	4,126	1.2	0.1	0.1	1.41	£430
Spar, LLANDRILLO-YN-RHOS	3,300	1.1	0.2	0.0	1.26	£480
Spar, ABERGELE	3,500	1.0	0.2	0.0	1.22	£430
Co-op, HEN GOLWYN	3,014	0.9	0.2	0.0	1.11	£460
Co-op, HEN GOLWYN	2,663	0.9	0.1	0.0	1.02	£480
Spar, CONWY	2,900	0.8	0.1	0.0	0.88	£380
Co-op, LLANDRILLO-YN-RHOS	2,690	0.8	0.2	0.0	1.05	£490
Spar, BETWS-Y-COED	2,417	1.0	0.0	0.4	1.40	£730

Co-op, CYFFORDD LI'DUDNO	1,983	0.6	0.1	-	0.66	£410
--------------------------	-------	-----	-----	---	------	------

* Gan dybio bod arwynebedd llawr nwyddau cyfleus yr archfarchnadoedd mwyaf yn 80%

Gan ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth a Chynllun Datblygu Lleol Conwy mae'r tablau canlynol yn dangos sut gall y gwariant uchod newid dros y 10 mlynedd nesaf. Disgwylir y bydd yr holl siopau yn tyfu, yn enwedig y rhai yn ardal Abergele.

Tabl yn amcangyfrif y newid mewn gwariant blynyddol ar nwyddau cyfleus yn y prif archfarchnadoedd dros y 10 mlynedd nesaf yn seiliedig ar dwf poblogaeth

Siop	Maint y siop (Tr. Sgwâr)	Gwariant presennol preswylwyr (£M)	Gwariant preswylwyr 10 mlynedd (£M)	Masnach bresennol yn ôl troedfedd sgwâr (£)	Masnach 10 mlynedd yn ôl troedfedd sgwâr (£)	% Newid
Asda, LLANDUDNO	81,190	60.5	62.8	£980	£1,010	3.8%
Asda, BAE CINMEL	57,740	34.9	37.8	£1,000	£1,070	8.4%
Tesco, CYFFORDD LI'DUDNO	34,900	23.8	25.0	£880	£920	4.9%
Tesco, ABERGELE	37,800	22.4	25.4	£810	£910	13.6%
Morrison's, BAE COLWYN	22,500	14.0	14.8	£850	£890	5.8%
Lidl, BAE COLWYN	12,107	8.5	8.9	£940	£990	5.0%
Aldi, HEN GOLWYN	11,696	6.9	7.5	£810	£870	8.5%
Aldi, LLANDUDNO	13,000	6.8	7.0	£700	£720	2.9%
Iceland, BAE COLWYN	10,300	6.1	6.4	£790	£830	5.5%
Iceland, LLANDUDNO	10,300	5.3	5.5	£700	£720	4.1%
Co-op, LLANRWST	10,169	6.2	6.5	£840	£890	5.2%
M&S, LLANDUDNO	38,165	4.2	4.3	£170	£170	2.8%
Asda, CYFFORDD LI'DUDNO	9,800	4.2	4.3	£560	£580	2.9%
Iceland, CYFFORDD LI'DUDNO	7,400	3.1	3.2	£560	£580	4.6%
Co-op, BAE PENRHYN	4,096	1.5	1.5	£620	£630	0.4%
Sainsbury's, LLANDUDNO	4,126	1.2	1.2	£430	£430	0.0%
Spar, LLANDRILLO-YN-RHOS	3,300	1.1	1.1	£480	£490	1.5%
Spar, ABERGELE	3,500	1.0	1.2	£430	£490	15.3%
Co-op, HEN GOLWYN	3,014	0.9	0.9	£460	£470	5.5%
Co-op, HEN GOLWYN	2,663	0.9	0.9	£480	£490	0.1%
Spar, CONWY	2,900	0.8	0.8	£380	£390	1.1%
Co-op, LLANDRILLO-YN-RHOS	2,690	0.8	0.8	£490	£490	2.6%
Spar, BETWS-Y-COED	2,417	1.0	1.0	£730	£740	1.4%
Co-op, CYFFORDD LI'DUDNO	1,983	0.6	0.6	£410	£430	2.1%

Dwyrain Conwy

Amcangyfrifir mai cyfanswm y galw am nwyddau cyfleus yn ardal fanwerthu Dwyrain Conwy yw £44.8 Miliwn ar gyfer y boblogaeth breswyl, ac awgryma'r data fod 42.7% o'r galw hwn am nwyddau cyfleus yn cael ei ateb yn y siopau lleol. Gallai twristiaeth chwarae rhan sylweddol yn yr ardal fanwerthu hon gan fod nifer fawr o unedau hunanarlwyo ar hyd yr arfordir o Dywyn i Fae Cinmel a allai ychwanegu £23.5 Miliwn o bosibl i'r gwariant ar nwyddau cyfleus. Gan gynnwys twristiaeth, mae'r data yn awgrymu y gallai'r siopau lleol fod yn gwneud yn dda. Disgwylir i'r boblogaeth yn ardal fanwerthu Dwyrain Conwy dyfu 9.1% hefyd, gan olygu cynnydd o £4.5 Miliwn yn y galw am nwyddau cyfleus.

Yn seiliedig ar y boblogaeth breswyl bresennol mae capasiti ar gyfer twf cymedrol yn y cyflenwad nwyddau cyfleus o tua 10,000 troedfedd sgwâr, fodd bynnag mae hyn yn codi at 25,000 troedfedd sgwâr ar ôl ystyried y galw posibl o'r sector twristiaeth. Daw'r capasiti hwn o ostyngiad bach ym masnach y siopau presennol ynghyd â lleihad yn y fasnach sy'n cael ei cholli i siopau yn Rhuddlan, Y Rhyl, Dinbych a Bae Colwyn.

Gan edrych i'r dyfodol a gan ystyried y twf yn y boblogaeth o ganlyniad i'r safleoedd tai a gymeradwywyd, ynghyd ag effaith y twf mewn siopa ar-lein a gostyngiad bach mewn gwerthiant manwerthu yn gyffredinol oherwydd yr economi a Brexit, mae'r capasiti ar gyfer twf cyflenwad nwyddau cyfleus yn codi i 17,000 troedfedd sgwâr ar gyfer y boblogaeth breswyl. Pan ystyir twristiaeth hefyd mae'r capasiti hwn tua 35,000 troedfedd sgwâr.

Canol Conwy

Amcangyfrifir mai cyfanswm y galw am nwyddau cyfleus yn ardal fanwerthu Canol Conwy yw £66.1 Miliwn ar gyfer y boblogaeth breswyl, ac mae'r data yn awgrymu bod 36.0% o'r galw hwn am nwyddau cyfleus yn cael ei ateb yn y siopau lleol. Mae twristiaeth yn chwarae llai o ran yn yr ardal fanwerthu hon gan ychwanegu £4.6 Miliwn mewn gwariant ar nwyddau cyfleus. O ystyried maint a math y siopau sydd ar gael o'u cymharu â maint a natur y boblogaeth breswyl, mae'r data yn awgrymu bydd y siopau lleol yn gwneud yn dda. Hefyd, disgwylir i ardal fanwerthu Canol Conwy weld twf poblogaeth o 6.3% a gallai hyn arwain at gynnydd pellach o £3.7 Miliwn yn y galw am nwyddau cyfleus.

Ar sail y boblogaeth breswyl bresennol mae capasiti ar gyfer twf yn y cyflenwad nwyddau cyfleus o tua 12,000 troedfedd sgwâr, sy'n codi i 16,000 troedfedd sgwâr ar ôl ystyried y galw potensial o'r sector twristiaeth. Daw'r capasiti hwn o ostyngiad bach ym masnach y siopau presennol ynghyd â lleihad yn y fasnach sy'n cael ei cholli i Abergele, Llandudno a Chyffordd Llandudno yn benodol.

Gan edrych i'r dyfodol ac ystyried y cynnydd yn y boblogaeth o ganlyniad i'r safleoedd tai a gymeradwywyd, ynghyd ag effaith twf siopa ar-lein a lleihad bach cyffredinol mewn gwariant manwerthu oherwydd yr economi a Brexit, mae'r capasiti ar gyfer twf cyflenwad nwyddau cyfleus yn cynyddu i 16,000 troedfedd sgwâr ar gyfer y boblogaeth breswyl. Pan gaiff twristiaeth ei chynnwys hefyd mae'r capasiti tua 20,000 troedfedd sgwâr.

Gogledd Conwy

Amcangyfrifir mai cyfanswm y galw am nwyddau cyfleus yn ardal fanwerthu Gogledd Conwy yw £39.7 Miliwn ar gyfer y boblogaeth breswyl. Mae gan yr ardal gyflenwad da ar gyfer nwyddau cyfleus ac awgryma'r data fod 71.8% o'r galw hwn am nwyddau cyfleus yn cael ei ateb yn y siopau lleol. Er bod twristiaeth yn bwysig iawn i'r economi leol, daw llawer o'r cyflenwad yn ardal Gogledd Conwy o

Westai, gwestai Gwely a Brecwast ac ymwelwyr dydd sy'n arwain at alw am nwyddau cyfleus is o tua £3.7 Miliwn. Disgwylir i siopau lleol fasnachu'n dda, fodd bynnag daw llawer o'r fasnach ychwanegol hon o boblogaeth breswyl y canolfannau manwerthu cyfagos gan olygu bydd unrhyw gynnydd yng nghyflenwadau'r rhain yn cael effaith sylweddol ar y capasiti ar gyfer cyfleuster manwerthu newydd yn ardal Gogledd Conwy. Disgwylir y bydd poblogaeth ardal fanwerthu Gogledd Conwy yn tyfu 1.2% yn unig a gallai hyn arwain at gynnydd o £0.5 Miliwn yn y galw am nwyddau cyfleus.

Yn seiliedig ar y boblogaeth breswyl bresennol nid oes capasiti ar gyfer twf yn y cyflenwad nwyddau cyfleus yng Ngogledd Conwy. Byddai ystyried y galw o'r sector twristiaeth yn gallu darparu ar gyfer twf bach o 3,000 troedfedd sgwâr.

Disgwylir i'r ardal fanwerthu hon weld twf bach yn y boblogaeth yn unig, a chaiff y rhan fwyaf o'r twf hwn ei wrthbwyso gan gynnydd mewn siopa ar-lein a llai o wariant manwerthu cyffredinol yn y siopau oherwydd yr economi a Brexit. Felly, amcangyfrifir bod y capasiti ar gyfer twf cyflenwad yn 5,000 troedfedd sgwâr.

Gorllewin Conwy

Amcangyfrifir mai cyfanswm y galw am nwyddau cyfleus yn ardal fanwerthu Gorllewin Conwy yw £55.3 Miliwn ar gyfer y boblogaeth breswyl. Er bod gan yr ardal hon gyflenwad cryf o nwyddau cyfleus yng Nghyffordd Llandudno, mae Bangor yn chwarae rhan bwysig gan gynnig cyflenwad i'r pentrefi yn y Gorllewin ac mae eu hagosrwydd at Landudno yn golygu bydd cyfran fawr o'r cyflenwad yn cael ei ateb gan ardal fanwerthu Gogledd Conwy. Gan ystyried hyn, awgryma'r data fod 25.7% o'r galw hwn am nwyddau cyfleus yn cael ei ateb gan siopau yn ardal fanwerthu Gorllewin Conwy. Mae twristiaeth yn chwarae rhan bwysig yn y galw am nwyddau cyfleus yng Ngorllewin Conwy, gan ychwanegu £7.7 Miliwn. Mae Cyffordd Llandudno hefyd yn chwarae rhan ganolog allweddol yn y cyflenwad i ardaloedd manwerthu Canol Conwy a De Conwy. Disgwylir i siopau lleol fod yn gwneud yn dda, fodd bynnag daw llawer o'r fasnach ychwanegol hon o boblogaeth breswyl y canolfannau manwerthu cyfagos gan olygu bydd unrhyw gynnydd yn y cyflenwad i'r rhain yn lleihau'r capasiti ar gyfer cyflenwad nwyddau cyfleus ychwanegol yng Ngorllewin Conwy. Disgwylir i boblogaeth ardal fanwerthu Gorllewin Conwy dyfu 3.7% a gallai hyn arwain at gynnydd o £3.1 Miliwn yn y galw am nwyddau cyfleus.

Yn seiliedig ar y boblogaeth breswyl bresennol mae capasiti ar gyfer cyflenwad nwyddau cyfleus ychwanegol o tua 6,000 troedfedd sgwâr. Mae hyn yn codi i 8,000 troedfedd sgwâr pan gaiff y galw potensial o'r sector twristiaeth ei gynnwys. Mae'r sefyllfa o ran y capasiti hwn wedi dod i'r amlwg oherwydd twf poblogaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn sgil datblygiadau tai newydd.

Gan edrych tua'r dyfodol ac ystyried twf y boblogaeth o ganlyniad i safleoedd tai a gymeradwywyd ochr yn ochr â llai o alw o ganlyniad i siopa ar-lein a Brexit, amcangyfrifir bod capasiti ar gyfer 8,000 troedfedd sgwâr sy'n codi i 10,000 troedfedd sgwâr wrth gynnwys galw o'r sector twristiaeth.

Ers llunio'r data hyn, mae gwaith wedi dechrau ar siop Lidl newydd yng Nghyffordd Llandudno. Bydd y siop hon yn cyfrif am yr holl gapasiti ychwanegol yn yr ardal werthu hon.

De Conwy

Amcangyfrifir mai cyfanswm y galw am nwyddau cyfleus yn ardal fanwerthu De Conwy yw £31.1 Miliwn ar gyfer y boblogaeth breswyl. Mae cyflenwad nwyddau cyfleus yr ardal fanwerthu hon yn

llawer gwannach na'r lleill ac mae dewis y boblogaeth breswyl yn gyfyngedig. Awgryma'r data fod 27.7% o'r galw am nwyddau cyfleus yn cael ei ateb gan siopau yn ardal fanwerthu Conwy, ac mae'r gweddill yn cael ei ateb gan siopau yng Nghyffordd Llandudno, Llandudno, Bangor, Bae Colwyn a Dinbych.

Mae twristiaeth yn chwarae rhan bwysig yn y galw am nwyddau cyfleus yn Ne Conwy gan fod llawer o lety hunanarlwyo, safleoedd carfanau a gwersylla. Amcangyfrifir y gallai twristiaeth ychwanegu £4.9 Miliwn i'r galw am nwyddau cyfleus.

Disgwylir i boblogaeth ardal fanwerthu De Conwy dyfu 4.0% a gallai hyn arwain at gynydd o £0.9 Miliwn yn y galw am nwyddau cyfleus.

Yn seiliedig ar y boblogaeth breswyl bresennol mae capasiti ar gyfer cyflenwad nwyddau cyfleus ychwanegol o tua 12,000 troedfedd sgwâr. Mae hyn yn codi at 14,000 troedfedd sgwâr pan gaiff y galw posibl o'r sector twristiaeth ei gynnwys.

Mae'r galw yn y dyfodol yn sgil twf yn y boblogaeth yn debygol o gael ei ateb drwy lai o alw yn sgil siopa ar-lein a Brexit. Amcangyfrifir bod capasiti ar gyfer 13,000 troedfedd sgwâr sy'n codi i 15,000 troedfedd sgwâr wrth ystyried y galw twristiaeth.

Crynodeb Capasiti Cyfleus

Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o gapasiti nwyddau cyfleus posibl pob un o'r ardaloedd manwerthu.

Ardal fanwerthu	Capasiti Presennol (troedfedd sgwâr)	Capasiti y Dyfodol (troedfedd sgwâr)
Dwyrain Conwy	25,000	35,000
Canol Conwy	16,000	20,000
Gogledd Conwy	3,000	5,000
Gorllewin Conwy	8,000	10,000
De Conwy	14,000	15,000

Manwerthu nwyddau cymhariaeth

Llandudno

Mae dalgylch (cynradd ac eilaidd) Llandudno, yn cynnwys parciau manwerthu Mostyn Champneys a Pharc Llandudno, yn cynnwys poblogaeth breswyl o 80,000 o bobl gyda galw am nwyddau cymhariaeth o £240 Miliwn. Awgryma'r data fod 60.1% o'r galw hwn yn cael ei ateb gan unedau manwerthu cymhariaeth yn Llandudno, a bod 16.2% yn cael ei golli y tu allan i'r sir. Felly, mae potensial i ehangu'r cynnig yn Llandudno i gynyddu'r ganran hon.

Mae gan dref Llandudno arwynebedd llawr nwyddau cymhariaeth o 647,000 troedfedd sgwâr (GOAD) sy'n denu gwariant gan breswylwyr o ychydig dros £190 Miliwn y flwyddyn a gwariant posibl o'r sector twristiaeth a'r gweithlu lleol o £32 Miliwn y flwyddyn (wedi'u cyfuno). Awgryma hyn mai dwysedd y gwerthiant yw £300 y droedfedd sgwâr, gan godi i £345 y droedfedd sgwâr wrth ystyried twristiaeth a'r gweithlu lleol. Mae hyn yn is na'r lefel genedlaethol a adroddwyd gan Experian (2016), sef £447.90.

Nid oes disgwyl i boblogaeth y dalgylch Cynradd newid rhyw lawer dros y 10 mlynedd nesaf, fodd bynnag disgwylir newid yn y dalgylchoedd eilaidd a thrydyddol a allai olygu bod 11,000 yn ychwanegol o breswylwyr yn byw yn y dalgylch. Fodd bynnag, mae'r twf hwn yn cael ei wrthbwyso yn erbyn gostyngiad yn y gwariant ar nwyddau cymhariaeth yn y dyfodol o ganlyniad i fwy o siopa ar-lein (os bydd tueddiadau presennol yn parhau). Awgrymir y bydd dwysedd y gwerthiant hwn yn cynyddu rhyw ychydig yn unig yn ystod y 10 mlynedd nesaf i £305 y droedfedd sgwâr heb gynnwys twristiaeth a £350 y droedfedd sgwâr gan gynnwys twristiaeth.

Mae potensial i Landudno ddenu rhwng £10 Miliwn a £15 Miliwn yn ychwanegol o fasnach nwyddau cymhariaeth yn seiliedig ar y galw posibl yn y dalgylch. Mae hyn yn cyfateb i rhwng 20,000 troedfedd sgwâr a 30,000 troedfedd sgwâr mewn arwynebedd llawr ar gyfer nwyddau cymhariaeth, fodd bynnag gellid cynyddu dwysedd y gwerthiant ar yr arwynebedd llawr presennol i gyrraedd yn agosach at y cyfartaledd cenedlaethol.

Yn seiliedig ar y data a dadansoddiad o'r cyflenwad a'r galw am nwyddau cymhariaeth yn Llandudno, nid oes angen capasiti nwyddau cymhariaeth ychwanegol yn Llandudno a dylid canolbwyntio ar wella'r cynnig gan ddefnyddio'r arwynebedd llawr presennol.

Gan edrych i'r dyfodol, bydd y cynnydd yn y galw am nwyddau cymhariaeth yn sgil twf y boblogaeth yn y dyfodol yn dalgylch Llandudno yn cael ei wrthbwyso gan gynnydd yn y gwariant ar-lein. Gellir ateb yr holl gynnydd gan ddefnyddio'r arwynebedd llawr presennol.

Bae Colwyn

Mae dalgylch Bae Colwyn (cynradd ac eilaidd) yn cynnwys poblogaeth breswyl o 87,700 o bobl a galw am nwyddau cymhariaeth o £260 Miliwn. Mae'r data yn awgrymu bod 24% o'r galw hwn yn cael ei ateb gan unedau manwerthu nwyddau cymhariaeth ym Mae Colwyn, a bod 29% yn cael ei golli y tu allan i'r sir. Felly, mae potensial i ehangu'r cynnig ym Mae Colwyn i gynyddu'r ganran hon.

Mae gan Fae Colwyn arwynebedd llawr nwyddau cymhariaeth o 215,000 troedfedd sgwâr (GOAD) y gallai fod yn denu gwariant gan breswylwyr o ychydig dros £80 Miliwn y flwyddyn ac o bosibl gwariant gan dwristiaeth a'r gweithlu lleol o £10 Miliwn y flwyddyn (wedi'u cyfuno). Awgryma hyn fod y dwysedd gwariant yn £380 y droedfedd sgwâr, gan godi i £420 y droedfedd sgwâr wrth ystyried twristiaeth a'r gweithlu lleol. Mae hyn ychydig yn is na'r lefel genedlaethol a adroddwyd gan Experian (2016) sef £447.90.

Disgwylir y bydd cynnydd o 10,000 ym mhoblogaeth y dalgylch Cynradd ac Eilaidd dros y 10 mlynedd nesaf, sy'n cyfateb i gynnydd mewn galw o £30 Miliwn am nwyddau cymhariaeth. Bydd rhywfaint o'r twf hwn yn cael ei wrthbwyso gan ostyngiad mewn gwariant ar nwyddau cymhariaeth yn y dyfodol o ganlyniad i gynnydd mewn siopa ar-lein (os bydd tueddiadau presennol yn parhau). Awgrymir felly y bydd y dwysedd gwerthiant hwn yn gweld cynnydd bach yn unig dros y 10 mlynedd nesaf i £400 y droedfedd sgwâr heb gynnwys twristiaeth, a £440 y droedfedd sgwâr gan gynnwys twristiaeth.

Mae potensial i Fae Colwyn ddenu £12 Miliwn yn ychwanegol o'r fasnach nwyddau cymhariaeth ar sail y galw yn y dalgylch. Mae hyn yn cyfateb i 25,000 troedfedd sgwâr ychwanegol o arwynebedd llawr nwyddau cymhariaeth yng nghanol y dref.

Yn seiliedig ar y data a dadansoddiad o'r galw a'r cyflenwad am nwyddau cymhariaeth ym Mae Colwyn, mae potensial ar gyfer capasiti nwyddau cymhariaeth ychwanegol ym Mae Colwyn o

tua 15,000 troedfedd sgwâr, gan geisio gwella'r cynnig sydd i'w gael o'r arwynebedd llawr presennol hefyd.

Gan edrych i'r dyfodol, bydd twf poblogaeth yn nalgylch Bae Colwyn yn arwain at fwy o alw am nwyddau cymhariaeth yn yr ardal, hyd yn oed ar ôl ystyried y gwerthiant ar-lein. Mae potensial felly ar gyfer capasiti cymhariaeth ychwanegol o tua 25,000 troedfedd sgwâr i gryfhau'r cynnig ym Mae Colwyn.

Abergele

O ystyried bod Abergele yn denu cyn lleied o'r fasnach gymhariaeth ar hyn o bryd yn y dalgylchoedd posibl, mae'n anodd iawn awgrymu senarios ar gyfer twf mewn cyflenwad yn y dyfodol.

Disgwylir y bydd twf o tua 9,000 o breswylwyr ym mhoblogaeth y dalgylch, a bydd hyn yn arwain at gynnydd o £26 Miliwn yn y galw am nwyddau cymhariaeth. Mae hyn yn unig yn awgrymu bod angen dod o hyd i arwynebedd llawr ar gyfer nwyddau cymhariaeth o bron i 50,000 troedfedd sgwâr ychwanegol (sy'n ystyried y ffaith bod cyfran o'r galw yn cael ei ateb gan werthiant ar-lein), ond wrth gwrs bydd llawer o'r galw ychwanegol hwn yn cael ei ateb gan ganolfannau y tu allan i Sir Conwy.

Mae'n bwysig nodi bod llawer o orgyffwrdd rhwng dalgylchoedd Bae Colwyn ac Abergele ac mae cyfran o'r galw ychwanegol hwn yn cyfrif am y capasiti ychwanegol ym Mae Colwyn.

Llanrwst

Yn anffodus nid yw Llanrwst yn rhan o gronfa ddata GOAD Experian, felly nid yw'n bosibl cynnig unrhyw senarios ar gyfer twf. Y galw am nwyddau cymhariaeth yn nalgylch Cynradd ac Eilaidd Llanrwst yw tua £11 Miliwn a disgwylir cynnydd bach yn y boblogaeth yn unig. O ystyried natur gyfyngedig cynnig y dref, disgwylir mai cyfran fach iawn o'r fasnach hon fydd yn cael ei chadw'n lleol ac mae cyfran fawr yn mynd i Llandudno, Bae Colwyn, Bangor neu Ddinbych.

Crynodeb Capasiti Cymhariaeth

Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o'r capasiti cymhariaeth posibl ym mhob un o'r ardaloedd manwerthu.

Ardal fanwerthu	Capasiti Presennol (tr sgwâr)	Capasiti i'r Dyfodol (tr sgwâr)
Llandudno	Dim capasiti	Dim capasiti
Bae Colwyn	15,000	25,000
Abergele	Amherthnasol	Amherthnasol
Llanrwst	Amherthnasol	Amherthnasol